# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 13 Hydref 2014** |
| Amser: | **13.30 - 17.20** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/14099006-fce5-4941-a465-8614b4f6bd2a?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**Keith Davies AC** |
| Tystion: | **Nick Capaldi, Cyngor Celfyddydau Cymru**<br>**Richard Davies, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg**<br>**Tony Evans, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru**<br>**Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg**<br>**Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru**<br>**Hywel Tudor, Cyngor Celfyddydau Cymru**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br>**John Dwight, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Richard Bettley (Ymchwilydd)**<br>**Gareth David Thomas (Ymchwilydd)** |

## 1 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013–14:

1.1 **Trafododd yr Aelodau y papurau briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil cyn y sesiynau craffu gyda Chomisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Chyngor Celfyddydau Cymru.**

TRAWSGRIFIAD

**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.**

**2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones a Julie Morgan. Dirprwyodd Jocelyn Davies a Keith Davies ar eu rhan.**

## 3 Papurau i'w nodi

**3.1 Nodwyd y papurau.**

**3.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Syr Derek Jones yn gofyn a oes polisi sy'n ymwneud â phecynnau diswyddo ac, os felly, a ydynt yn gymwys i staff ar bob gradd.**

3.1 Rheoli Cyflyrau Cronig: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (30 Medi 2014)

3.2 Cyfrifon Blynyddol Cyfun Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013–14: Llythyr gan Syr Derek Jones (6 Hydref 2014)

## 4 Y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Gohebiaeth y Pwyllgor

4.1 Trafododd yr Aelodau yr ohebiaeth ac roeddent yn cefnogi cais y **Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd** i Archwilydd Cyffredinol Cymru wneud trefniadau i archwilio'r data sy'n sail i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

4.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi gwybod iddo am ei benderfyniad.

## 5 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013–14: Comisiynydd Plant Cymru

5.1 **Craffodd y Pwyllgor ar Gyfrifon Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2013-14, gan holi Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru a Tony Evans, Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol.**

**5.2 Cytunodd Comisiynydd Plant Cymru i ddarparu manylion am gost prydlesu'r car, a sut y mae'r costau hynny'n cymharu â'r defnydd o gerbyd preifat. Cytunodd hefyd i ddarparu manylion am y cynnydd mewn gwariant gweinyddol arall o £18,000 rhwng 2012-13 a 2013-14.**

## 6 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Comisiynydd y Gymraeg

6.1 **Craffodd y Pwyllgor ar Gyfrifon Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2013-14, gan holi Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg a Richard Davies, y Swyddog Cyllid.**

## 7 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2013-14

6.1 **Craffodd y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2013-14, gan holi Nick Capaldi, y Prif Weithredwr a Hywel Tudor, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.**
**6.2 Cytunodd Nick Capaldi i ddarparu rhagor o wybodaeth am y cynllun benthyciadau 'Collectorplan', gan gynnwys cymhwysedd gwaith celf, rhywedd, incwm a daearyddiaeth. Cytunodd hefyd i ddarparu nodyn ar sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu'r strategaeth i wella cyfranogiad pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel rhan o'u targedau ar gyfer 2014-15 a'u nodau ar gyfer 2018.**

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd i ysgrifennu at Dr Shooter fel rhan o'i adolygiad o'r Comisiynydd Plant ar y materion a godwyd, yn ogystal ag ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch lefel yr adnoddau.

## 10 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2013-14: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd i ysgrifennu at Gyngor Celfyddydau Cymru yn gofyn am ragor o wybodaeth am rannau o'r Adroddiad Blynyddol na chawsant eu holi yn eu cylch oherwydd prinder amser.